Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 20 Hydref 2006

Teitl: Prifysgolion yn buddsoddi yn addysg cymunedau

Mae buddsoddiad mawr i hybu addysg ac adfywiad yn ardal Blaenau'r Cymoedd yn Ne Cymru wedi cael ei gyhoeddi heddiw.

Bydd cyfanswm o £1.5m yn cael ei rannu rhwng Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd ar gyfer prosiect yn para am ddwy flynedd i ehangu'r cyfleoedd addysg uwch sydd ar gael i drigolion Cymoedd De Cymru.

Defnyddir y cyllid, sy'n dod o Gronfa Datblygu Strategol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), i ariannu nifer o gynlluniau a fydd yn rhoi cyfle i bobl leol brofi addysg brifysgol neu gael gwybodaeth a fydd yn eu helpu i ddilyn cwrs addysg uwch.

Bydd y ddwy brifysgol yn darparu cyfleoedd dysgu mewn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig drwy gynnal cynlluniau megis 'Siopau Gwyddoniaeth', sy'n adeiladu ar waith a gychwynnwyd eisoes gan Brifysgol Gymunedol y Cymoedd.

Bydd y Siopau Gwyddoniaeth – y rhai cyntaf yng Nghymru a Lloegr – ar gael mewn lleoedd megis canolfannau siopa, lle bydd tiwtoriaid, ymchwilwyr a myfyrwyr yn helpu grwpiau lleol i ddatrys problemau drwy ddefnyddio dulliau gwyddonol ymarferol. Byddant hefyd yn rhoi cyfle i bobl leol feithrin eu sgiliau, a gallai hyn eu helpu i symud ymlaen i gyrsiau achrededig mwy ffurfiol yn y gymuned.

Croesawyd y newyddion am y datblygiad gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

"Mae ehangu mynediad i addysg uwch, yn enwedig mewn cymunedau nad ydynt yn anfon llawer o bobl i brifysgolion, yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad

Cymru. Rydw i'n falch ein bod ni'n gallu cefnogi'r datblygiad hwn, gan mai dyma'r union fath o ddarpariaeth y mae gan y ddau sefydliad arbenigedd ynddo.

"Mae gan Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd brofiad helaeth o'r math hwn o weithgaredd. Rydw i'n arbennig o falch o weld y sefydliadau hyn yn cydweithio mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag ethos ein strategaeth ar gyfer addysg uwch, *Ymgeisio'n Uwch.*"

Meddai'r Athro Syr Roger Williams, Cadeirydd CCAUC:

"Buom yn pryderu ers amser maith nad yw cyfleoedd addysg uwch yn ddigon hygyrch i gymunedau Cymoedd De Cymru. Yn frodor o Dredegar fy hun, mae goresgyn y broblem hon yn agos iawn at fy nghalon. Rydw i wrth fy modd ein bod ni wedi gallu dod o hyd i'r arian i gefnogi'r ddau sefydliad hyn a'u helpu i ehangu'n sylweddol eu gwaith ardderchog yn y maes hwn."

Diwedd

I gael rhagor o wybodaeth, cysyllter â:
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebiadau, 029 2068 2225, emma.raczka@hefcw.ac.uk

Y Gronfa Datblygu Strategol

Sefydlwyd y Gronfa Datblygu Strategol flwyddyn yn ôl i alluogi'r Cyngor i gynnig cymorth ariannol i gefnogi gwaith y mae'n dymuno i'r sector addysg uwch ei wneud i hybu blaenoriaethau strategol y Cyngor.

Dylid edrych ar y buddsoddiad yng nghyd-destun strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, *Ymgeisio'n Uwch*, sy'n canolbwyntio ar yr angen i ehangu mynediad ac i hybu datblygiadau sylweddol mewn cydweithio ac ailgyflunio mewn addysg uwch yng Nghymru.

Siopau Gwyddoniaeth

Mae'r cydweithio rhwng y ddau sefydliad yn rhoi cyfle i bobl yn y Cymoedd gyrchu 'Siopau Gwyddoniaeth' i gael atebion i broblemau cymunedol ac, os dymunant, i symud ymlaen o ddysgu anffurfiol i gyrsiau prifysgol achrededig yn y gymuned. Caiff y Siopau Gwyddoniaeth a chyfleoedd dysgu cysylltiedig eu lleoli mewn mannau hygyrch megis canolfannau siopa, a byddant yn dod ag arbenigedd tiwtoriaid, ymchwilwyr a myfyrwyr prifysgol yn syth i ganol rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig.

Mae Canolfan Seryddiaeth ac Addysg Wyddonol Prifysgol Morgannwg yn egluro: "Mae angen medrau arbenigol ar grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn aml er mwyn iddynt allu datblygu eu gwaith. Mae Siop Wyddoniaeth yn ddolen gyswllt rhwng y brifysgol a'r gymuned a all roi grwpiau cymunedol mewn cysylltiad â gwyddonwyr a myfyrwyr a fydd efallai'n gallu gweithio gyda hwy.

"Mae Siopau Gwyddoniaeth yn sefyll ar y gyffordd lle mae gwyddoniaeth yn cyfarfod â chymdeithas. Mae'r sefydliadau ymchwil cymunedol hyn yn ymdrin â phroblemau gwyddonol ymarferol ar raddfa leol. Er eu bod yn darparu ar gyfer y gymuned, nid yw Siopau Gwyddoniaeth yn 'siopau' yn ystyr draddodiadol y gair. Eu pwrpas yw gwneud ymchwil gwyddonol mewn amryw o ddisgyblaethau – yn ddi-dâl fel rheol – ar ran dinasyddion a'r gymdeithas leol. Maent hwy'n rhoi cymorth ymchwil cyfranogol, annibynnol a fforddiadwy i grwpiau cymunedol yn ôl y galw, ac yn hyrwyddo ac yn cefnogi mynediad y cyhoedd i, a'i ddylanwad ar wyddoniaeth, ymchwil a thechnoleg."

Prifysgol Gymunedol y Cymoedd

Un o fentrau Prifysgol Cymru, Casnewydd yw Prifysgol Gymunedol y Cymoedd-Dwyrain ac fe'i sefydlwyd gyda chymorth o Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop yn 2000. Ers hynny mae dros 900 o bobl wedi dychwelyd i ddysgu drwy astudio'r cyrsiau Addysg Uwch 'arunig' a gynigir. Nid oedd gan y mwyafrif o'r bobl hyn ddim neu fawr ddim cymwysterau blaenorol. Mae'r Brifysgol Gymunedol yn gweithredu mewn 14 lleoliad cymunedol ar draws Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen . Mae'r lleoliadau'n cynnwys Pont-y-pŵl, Garndiffaith, Caerffili, Markham, Tredegar a Glynebwy.

Mae'n cynnig dewis eang o fodiwlau 'arunig' o fewn fframwaith rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch – Astudiaethau Agored Cyfunol y Brifysgol yn y Dyniaethau, y Gwyddorau Cymdeithasol a Chyfrifiaduro. Dysgir y modiwlau yn ystod y tymhorau ysgol i gyd-fynd

ag oriau ysgol a darperir gofal plant di-dâl. Cofrestrir myfyrwyr bob tymor a hwy sy'n dewis y nifer o fodiwlau y maent hwy'n dymuno eu dilyn. Denir pobl i Addysg Uwch gan natur gymunedol a lleol y ddarpariaeth. Mae hyn, ynghyd ag amseriad y cyrsiau, yn eu galluogi i astudio yn ogystal â chyflawni eu hymrwymiadau teuluol ac ymrwymiadau eraill.

Cynigir cymorth ychwanegol i'r myfyrwyr, megis clwb cyfrifiaduro wythnosol mewn sawl lleoliad a gweithdai sgiliau astudio. Nid yw llawer o'r myfyrwyr wedi astudio ers blynyddoedd lawer ac felly mae'r cyfleusterau hyn yn eu helpu i astudio ar gyfer yr aseiniadau neu'r seminarau.

Mae cyfleusterau llyfrgell ar gael mewn dau le a darperir blychau llyfrau mewn mannau eraill. Darperir mynediad i'r Rhyngrwyd ym mhob lleoliad.

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.